Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Yr Eifl

**Trefor**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 5LU**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Yr Eifl

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Yr Eifl |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 58 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 53 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 5 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 15.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 13.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 88.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2017 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/05/2023 |
| * | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.
Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Nid nepell o draeth Trefor ac o dan gysgod y mynyddoedd mae cymuned gynnes a theuluol Ysgol yr Eifl. Mae'r pennaeth a'r holl staff yn cyfrannu'n llwyddiannus at greu ethos gofalgar a chynhwysol. Mae bron bob disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu, ac yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd cadarn.

Un o nodweddion pennaf yr ysgol yw'r ymdeimlad gofalgar, parchus a chartrefol sy'n bodoli ynddi. Mae pob aelod staff yn teimlo'n rhan greiddiol o'r gymuned ac maent bob amser yn barod i wrando ar bryderon y disgyblion ac ymateb yn briodol iddynt.

Mae naws Gymreig gryf yn bodoli yn yr ysgol ac mae bron bob disgybl yn dangos balchder yn eu hysgol ynghyd â gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol. Mae'r ysgol yn achub ar gyfleoedd buddiol i annog y disgyblion i ddathlu eu Cymreictod drwy ystod o weithgareddau pwrpasol sy'n meithrin eu dealltwriaeth, eu gwybodaeth, a'u balchder yn effeithiol ac ystyrlon. Mae hyn yn cefnogi disgyblion i ddangos lefel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith ac yn adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn barod i drafod eu barn yn aeddfed gyda'u cyfoedion a chyfrannu eu syniadau. Maent yn dangos parch at ei gilydd a'r staff ac yn barod i estyn cymorth i eraill. Mae medrau bron bob disgybl yn cynyddu'n gadarn. Er hyn, nid yw disgyblion bob amser yn cael cyfleoedd i gymryd rhan flaenllaw i gyfrannu at waith a bywyd ehangach yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion bob tro'n hollol sicr ynghylch sut i wella'u gwaith.

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ofalgar a phwrpasol. Caiff ei gynorthwyo'n fedrus gan gorff llywodraethol ymroddgar sydd â dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu. Mae blaenoriaethau'r ysgol, ar y cyfan, wedi deillio o adnabyddiaeth arweinwyr o'u hysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio strategol bob amser yn ddigon penodol na miniog.

## Argymhellion

A1 Cryfhau cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar waith a bywyd yr ysgol, gan gynnwys sut i wella eu gwaith eu hunain

A2 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso yn arwain at flaenoriaethau miniog

A3 Datblygu cyfleoedd cyson i staff i arwain meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu. Maent yn datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy’n briodol i’w cyfnod a’u mannau cychwyn. Maent yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dwysàu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar ei gilydd ac oedolion. Mae medrau siarad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gadarn. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn sgwrsio’n hyderus yn y Gymraeg. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn defnyddio eu medrau llafar yn effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus ac aeddfed gan ddefnyddio geirfa gyfoethog, er enghraifft wrth leisio safbwyntiau gwahanol am drychinebau lleol a’r byd.

Mae medrau darllen llawer o’r disgyblion ieuengaf yn datblygu’n dda. Maent yn trafod cymeriadau storïau yn synhwyrol ac yn ymateb yn frwd wrth drafod ac ateb cwestiynau am ddigwyddiadau’r stori ‘Nansi a’r Goeden Ffa’, er enghraifft. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu’n effeithiol, ac erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o'r plant hŷn yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith. Maent yn darllen ar goedd gyda mynegiant, yn rhoi sylw i atalnodi ac yn amrywio goslef a llais yn llwyddiannus. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn ymchwilio’n bwrpasol i themâu’r dosbarth ac yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau darllen yn llwyddiannus i gyflwyno gwybodaeth. Enghraifft dda o hyn yw disgyblion yn cywain a chyflwyno gwybodaeth yn llwyddiannus wrth fynegi barn am foddi Capel Celyn.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwella eu medrau ysgrifennu’n effeithiol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn creu marciau mawr mewn ystod dda o brofiadau, ac yn raddol, maent yn dechrau ysgrifennu geiriau a brawddegau syml yn fedrus, er enghraifft wrth ddisgrifio ystlum. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau’n gynyddol gywir, er enghraifft wrth ddisgrifio edrychiad Eli yn eu gwaith ysgrifenedig am Eli’r Eliffant. Mae’r disgyblion hynaf yn defnyddio geirfa gyfoethog ac ymadroddion dychmygus wrth gyfansoddi ystod o farddoniaeth. Ar frig yr ysgol, mae medrau ysgrifennu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn ac maent yn cyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn ystod ddiddorol o gyd-destunau dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn dewis eu geirfa’n ofalus wrth ysgrifennu sgript am Cilmyn Coesddu. Mae

disgwyliadau uchel athrawon yn cefnogi disgyblion i gyflawni gwaith i safon dda ac i gyflwyno'r gwaith yn gywrain a thaclus.

O oedran cynnar, mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod rhifau hyd at ddeg ac yn defnyddio'r wybodaeth yn dda i adio a thynnu'r rhifau hyn, er enghraifft wrth chwarae gemau syml. Mae disgyblion Blwyddyn 1 yn adnabod siapiau gwahanol yn wybodus ac yn defnyddio eu dealltwriaeth yn effeithiol mewn gweithgareddau ysgogol yn yr ardal allanol. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn parhau i wneud cynnydd cryf. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn datblygu eu medrau mesur wrth gymharu hyd a phwysau adar yr ardd. Ar frig yr ysgol, mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod eang o ddulliau yn gymwys i ddatrys problemau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn ddisgrifio eu dulliau meddwl a'u rhesymu yn dda wrth esbonio sut maent wedi dod i gasgliadau.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teganau rhaglenadwy yn hyderus wrth ddatrys problemau syml fel rhan o'u gwaith rhifedd. Mae llawer o'r disgyblion yng nghanol yr ysgol yn creu cyflwyniadau'n fedrus, er enghraifft wrth gynnwys animeiddio a throslais i'w sgriptiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6 yn creu ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni'n bwrpasol mewn amrywiaeth ysgogol o destunau dysgu. Er enghraifft, maent yn mireinio'u medrau i ddewis a dethol data wrth gofnodi pa gwpanau sydd fwyaf effeithiol i gadw dŵr yn oer.

Mae medrau artistig, cerddorol a chorfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gelfydd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cael cyfleoedd pwrpasol i arbrofi ag amryw gyfryngau ac i efelychu technegau artistiaid wrth ddatblygu eu medrau celf. Erbyn Blwyddyn 5 a 6, maent yn dylunio a gwnïo enwau tyddynnod pentref Trefor ac yn cyfansoddi a pherfformio anthem ar gyfer yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn ymroi'n frwdfrydig i weithgareddau cynhesu mewn gwersi addysg gorfforol tra bod disgyblion hŷn yn datblygu eu medrau corfforol yn fedrus drwy gymryd rhan mewn amryw weithgareddau chwaraeon.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn ac yn mwynhau ac yn elwa o'r ystod amrywiol o weithgareddau a phrofiadau cyfoethog yn yr ysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn cymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Mae'r ymdeimlad o barch a chwrteisi sydd gan ddisgyblion tuag at eu cyfoedion ac oedolion yn nodwedd gref. Maent yn ofalgar o'i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion pobl eraill. Er enghraifft, mae criw y "Ffrindiau Ffyddlon" yn gwarchod a chefnogi disgyblion yn ystod amseroedd egwyl gan sicrhau bod bob un yn cyd-chwarae'n hapus.

Mae aelodau'r Siarter Iaith yn cyfrannu'n frwdfrydig at ystod o weithgareddau buddiol. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn ddeallus ac yn annog eu cyd-ddisgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddathlu eu Cymreictod ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r berthynas â Band Trefor sy'n cyfrannu at yr ymdeimlad o gymuned Gymreig yn ogystal â datblygu balchder y disgyblion tuag at eu diwylliant a'u treftadaeth.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn datblygu'n ddysgwyr brwdfrydig ac ymroddgar. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gytûn ac yn cadw ar dasg am gyfnodau estynedig. Maent yn gwrando'n gyson dda ar gyfarwyddiadau a chyflwyniadau.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cysylltiadau ystyrlon yn eu dysgu ac yn dwyn i gof ffeithiau dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Wrth weithio, maent yn dangos hyder a gwydnwch ac yn dyfalbarhau â'u gwaith. Maent yn barod i gyfrannu ac yn gwneud hynny'n  fentrus ac yn greadigol. Er enghraifft, mae'r disgyblion ieuengaf yn cydweithio'n bwrpasol i greu darn o waith celf sy'n efelychu arddull artist lleol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parodrwydd ac yn gweithio'n gynhyrchiol yn unigol, fesul parau ac mewn grwpiau. Mae bron pob un yn parchu cyfraniadau pobl eraill ac yn derbyn gwahanol safbwyntiau yn aeddfed a chytbwys. Mae bron pob disgybl yn barod i ymgymryd â chyfrifoldebau, a chwarae rhan ym mywyd a gwaith yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ymgymryd yn ddigon cyson â rôlau arweinyddol, er mwyn iddynt gyfrannu at a dylanwadu ar waith a bywyd ehangach yr ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a chyfrifol trwy ddatblygu eu hymwybyddiaeth o gynaliadwyedd. Er enghraifft, ar frig yr ysgol, maent yn dysgu am bwysigrwydd ailddefnyddio ac ailgylchu plastig.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol ac yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach er mwyn hybu lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at ystod o weithgareddau corfforol gan gynnwys cymryd rhan mewn gwersi ffitrwydd dyddiol fel milltir y dydd.

### Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae pob aelod o staff yn gweithio'n effeithiol iawn i feithrin perthynas waith ofalgar a chynhwysol â'r disgyblion. Mae athrawon a cymorthyddion yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda iawn ac yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel a hapus yn eu dosbarthiadau. Mae hyn yn cyfrannu at amgylchedd gweithio pwrpasol lle mae disgyblion yn teimlo bod oedolion yn gwrando arnynt ac y gallant ofyn cwestiynau os oes angen cymorth arnynt. Mae gan yr athrawon a'r cymorthyddion ddisgwyliadau uchel o bob disgybl. Maent yn darparu cyfleoedd a phrofiadau ysgogol i ddatblygu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion mewn amrywiaeth priodol o gyd-destunau dysgu dilys. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol wrth werthu cacennau yn y bore coffi i godi arian at Wcrain.

Mae staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn dda gan sicrhau bod y rhan fwyaf yn ymgysylltu ac yn gweithio'n ddiwyd yn ystod gwersi. Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bwnc dda a chyfoes ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol i symbylu ac annog disgyblion i ddysgu. Mae cymorthyddion yn gweithio ochr ag ochr ag athrawon yn fedrus ac yn cyfrannu'n effeithiol at ddysgu'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn adeiladu'n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion. Maent yn sicrhau bod cyflymdra addas i ddysgu bron bob amser. Mae'r dosbarthiadau a'r mannau cyhoeddus yn lleoedd diddorol, difyr a lliwgar lle gall disgyblion o bob oed a gallu ddysgu'n gynhyrchiol. Mae athrawon yn holi'n dda i symud dysgu'r disgyblion ymlaen a chefnogi dealltwriaeth yn unol ag

anghenion y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael eu herio'n briodol.

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn briodol. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau dilyniant yn y gwersi sy'n ysgogi disgyblion i gyflawni'n dda. Mae cydbwysedd diddorol y cwricwlwm yn darparu profiadau dysgu sy'n datblygu medrau disgyblion yn gyson dda ar draws yr ystod oedran a gallu. Er enghraifft, mae themâu ysgogol fel 'Awstralia ' ac 'Uwch ein Pen' yn hybu brwdfrydedd disgyblion ac yn eu hannog i ymgysylltu â'u dysgu yn effeithiol rhwng y gymuned leol, Cymru a'r byd.

Mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant â disgyblion yn briodol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu yn ystod gweithgareddau. Yn ystod sesiynau dysgu, mae'r rhan fwyaf o'r athrawon ac ymarferwyr eraill yn ymateb yn rhagweithiol i ddysgu disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn rhoi adborth gwerthfawr iddynt ar safon eu cyflawniadau. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau'r ysgol bob amser yn sicrhau bod y disgyblion yn rhan ganolog o'u dysgu wrth iddynt wella'u gwaith. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwbl ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn symud i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cydweithio i gynllunio ystod o ddulliau dysgu, gweithgareddau ac adnoddau i ennyn diddordeb y disgyblion yn briodol. Mae'r athrawon yn defnyddio dulliau holi'n bwrpasol mewn gwersi. Er enghraifft, maent yn holi disgyblion am effaith Covid ar y gymuned leol a'r byd ehangach,gan eu hannog i ymestyn eu hymatebion.

Mae'r staff yn modelu iaith yn effeithiol iawn, ac yn manteisio ar gyfleoedd i fwydo geirfa newydd Cymraeg a Saesneg yn grefftus. Maent yn annog y disgyblion i ymfalchïo yn niwylliant a threftadaeth yr ardal leol a Chymru. Er enghraifft, wrth gynllunio cyfleoedd dysgu cyfoethog ar draeth Trefor, mae athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarn y disgyblion o'u cymdogaeth drwy gynnig profiadau byw ac ystyrlon iddynt.

Mae'r ysgol yn cynllunio ystod o deithiau ac ymweliadau buddiol i gyfoethogi'r cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn ymweld â'r ardal leol sy'n ennyn a chynnal eu diddordeb i ddysgu yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth ymweld â'r Amgueddfa Forwrol a dysgu am fyd natur Ynys Fawr Trefor, mae'r disgyblion wedi creu blychau bwydo ac yn gallu adnabod adar brodorol lleol.

Mae staff hefyd yn annog y disgyblion i gymryd rhan yn gyson mewn ystod o weithgarwch sy'n hybu ffitrwydd a iechyd corfforol. a ffitrwydd. Er enghraifft, cynhelir gwersi nofio, sesiynau pêl-droed a sesiynau ffitrwydd dyddiol. Mae'r rhain oll yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru i ddatblygu unigolion uchelgeisiol, iach a hyderus.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn hyrwyddo cwrteisi, ymddygiad a pharch disgyblion yn hynod lwyddiannus. Maent yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn briodol i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae'r staff yn

cydweithio'n effeithiol i greu cymuned ofalgar a chynhwysol sy'n cefnogi disgyblion i ymgartrefu'n gyflym a datblygu eu medrau creadigrwydd ac annibyniaeth yn fuddiol. Mae hyn yn annog y disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu ac mae ymdeimlad ac ethos teuluol tuag at bob disgybl yn rhinwedd nodedig o'r ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Wrth gynllunio cefnogaeth o ansawdd uchel, mae staff yn diwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol y disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos parch ac empathi at y staff a'u cyfoedion, gyda phawb yn dangos gofal tyner dros ei gilydd. Nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth yw'r ystyriaeth a roddir i les disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnig cyfleoedd bugeiliol rheolaidd i ddisgyblion drafod eu hemosiynau yn ystod sesiynau yn ystod cyfnodau ffurfiol ac adeg egwyl.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnig ystod o ymyraethau a chefnogaeth wedi eu teilwra sy'n ymateb i'w hanghenion a'u targedau personol. Mae'r cyswllt a'r cyfathrebu clós â rhieni, gan gynnwys cefnogaeth i deuluoedd, yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at gyrraedd y nod hwn. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion mewn perthynas â'r targedau yn eu cynlluniau unigol, a'u cynnydd o'u mannau cychwyn. Gwna'r ysgol ddefnydd da o asiantaethau allanol i fanteisio'n rhagweithiol ar wasanaethau a phartneriaethau i ddarparu cymorth pwrpasol i ddysgwyr. Maent yn cefnogi'r staff i ddarparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac i hyrwyddo presenoldeb cyson. Mae'r cymorthyddion yn gweithio'n fedrus iawn i gefnogi nifer o ddisgyblion yn y dosbarthiadau. O ganlyniad i'r ddarpariaeth a'r monitro, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion bregus yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau.

Caiff disgyblion hŷn gyfleoedd priodol i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, er enghraifft yng nghlwb chwaraeon yr Urdd er mwyn datblygu eu medrau corfforol. Mae sesiynau ffitrwydd wythnosol a hyfforddiant pêl-droed gan asiantaethau allanol yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion yn llwyddiannus.

Mae ethos yr ysgol a'r gwasanaethau cydaddoli yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae astudiaethau o drychinebau byd eang, fel yr angen i godi arian yn dilyn daeargryn Twrci, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd gwerthoedd fel goddefgarwch ac empathi.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn gydwybodol ac yn angerddol dros les, safonau a chynnydd pob disgybl. Mae'n cymryd gofal amlwg hefyd dros les a datblygiad holl staff yr ysgol. Mae'n cael ei gefnogi gan staff ymroddgar, a gyda'i gilydd, maent yn cydweithio'n ddiwyd i ddarparu profiadau addysgol cyfoethog i'r disgyblion. Nodwedd gref o'r ysgol yw'r ethos naturiol Cymraeg a'r ymdeimlad cadarnhaol at yr iaith. Mae'r agwedd groesawgar a chynhwysol ynghyd â'r diwylliant a ddangosir tuag at ddisgyblion o gefndiroedd ieithyddol a diwylliannau eraill yn gryfder amlwg. Ar y cyd â'r corff llywodraethol, mae gan yr ysgol weledigaeth glir sy'n seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol o ddatblygu dysgwyr creadigol, uchelgeisiol a brwdfrydig. Mae balchder y disgyblion tuag at yr ysgol a'r gymuned leol yn un amlwg a thrawiadol.

Mae gan arweinwyr nodau ac amcanion strategol pwrpasol sy’n helpu sicrhau bod pob disgybl yn cael y cyfle i lwyddo a thyfu fel unigolion gwerthfawr o gymdeithas. Mae hyrwyddo hunaniaeth Gymraeg a Chymreig yn elfen naturiol a chanolog o’r ysgol. Defnyddir yr ardal leol a’i chyfoeth o adnoddau a’i thraddodiadau diwydiannol a diwylliannol yn hynod effeithiol i gyfoethogi’r profiadau dysgu'r holl ddisgyblion.

Mae’r holl staff yn modelu ac yn hybu gwerthoedd drwy eu disgwyliadau uchel sy’n cyfrannu’n gadarnhaol iawn at yr elfen o barch a chynhwysiant ar draws yr ysgol. Mae’r ymagwedd hon yn amlwg yn y modd cwrtais ac aeddfed mae’r disgyblion yn rhyngweithio gyda’i gilydd a chydag oedolion, a’r balchder a ddangosant tuag at eu dysgu.

Mae gan arweinwyr adnabyddiaeth dda o gryfderau’r ysgol a’r hyn sydd angen ei wella a’i ddatblygu. Maent yn casglu ac yn dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol o safonau a darpariaeth trwy fonitro’r cynlluniau, craffu ar lyfrau disgyblion, teithiau dysgu ac arsylwadau ffurfiol gyda golwg ar sicrhau cynnydd a lles yr holl ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau gwerthuso bob amser yn ddigon cydlynus nac yn arwain at adnabod blaenoriaethau gwelliant yn ddigon miniog a phenodol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cyflawni eu rôl yn gydwybodol gyda dealltwriaeth effeithiol o’u cyfrifoldebau. Mae ganddynt falchder amlwg tuag at yr ysgol a’i rôl annatod o fewn y gymuned leol. Maent yn manteisio’n fwriadus ar yr ystod eang o arbenigeddau a phrofiadau i ddatblygu dealltwriaeth gyson o drefniadau dyddiol yr ysgol. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o gyllid, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, sydd yn cael effaith gadarn ar wella medrau disgyblion. Er enghraifft, maent wedi dyrannu cyllid i gymorthyddion gynnal rhaglenni cymorth a chefnogi disgyblion yn y dosbarthiadau.

Mae’r llywodraethwyr ar y cyd â’r pennaeth a’r tîm addysgu yn ymgymryd â’u cyfrifoldebau o ran hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion, gan gynnwys annog y disgyblion i fwyta ffrwythau adeg egwyl ac i yfed dŵr yn gyson yn ystod y dydd.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn briodol ac yn sicrhau bod staff yn datblygu eu hymarfer gan gysylltu hynny’n bwrpasol â blaenoriaethau gwelliant yr ysgol. Caiff yr holl staff eu cefnogi i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant. Er enghraifft, wrth ganolbwyntio ar godi safonau darllen, caiff staff gyfleoedd i rannu eu harfer dda ar lefel clwstwr, dalgylch a rhwydweithiau lleol sydd yn cyfrannu’n effeithiol at eu datblygiad proffesiynol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol i ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol cyson i’r holl staff. O ganlyniad, nid oes digon o gyfleoedd i staff ddatblygu eu medrau i arwain meysydd dysgu a phrofiad y cwricwlwm.

Mae’r ysgol yn rhoi ffocws clir ar fynd i’r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae’r ysgol wedi addasu eu cynlluniau ac wedi ymgorffori newidiadau i’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol i adlewyrchu’r cod ymarfer newydd. Mae’r pennaeth, y staff ac aelodau’r corff llywodraethol yn arddangos ymwybyddiaeth gadarn o ran yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwyedd ac wrth ddangos sensitifrwydd tuag at gostau byw. Amlygir hyn drwy nifer o fesurau, fel defnyddio biniau ailgylchu ac ailgylchu dillad a gwisg ysgol. Mae hyn yn cyfrannu’n gynhyrchiol at yr ymdeimlad cryf o gynnal ethos cymunedol, cefnogol a chynhwysol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2023